YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY DIRPRWY: DR GERAINT JONES

PEN. CYN: MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS

RHEOLWR BUSNES: MISS MENNA OWEN

17eg o Orffennaf 2020

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Hoffwn gychwyn drwy ddiolch i chi gyd am eich cefnogaeth ac am y gwaith tîm sydd wedi'n cynorthwyo ni i gyd drwy gyfnod anodd dros yr wythnosau diwethaf. Braf oedd derbyn tua hanner ein disgyblion yn ôl i'r ysgol yr wythnos yma i baratoi rhywfaint ar gyfer yr haf a mis Medi.

Rydym wedi ceisio cyfathrebu gyda chi a'n disgyblion yn rheolaidd drwy gyfnod y pandemig ac yn obeithiol bod yr wybodaeth yr ydych wedi'i dderbyn wedi bod yn fuddiol. Dyma lythyr olaf tymor yr haf a bwriad y llythyr hwn yw cynnig ychydig o'r wybodaeth diweddaraf i chi ar ein cynlluniau ar gyfer Medi. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi ar y cychwyn fod yr wybodaeth sydd yn y llythyr hwn yn ddibynnol ar dderbyn yr arweiniad diweddaraf gan Llywodraeth Cymru yn ystod yr haf ac ar barhâd yn y rheolaeth o'r feirws yn genedlaethol.

Dyddiadau Allweddol

Bydd holl aelodau staff yr ysgol yn cychwyn gweithio yn ôl ar ddydd Mawrth y 1af o Fedi 2020 a bydd y 2 ddiwrnod cyntaf yn ddiwrnodau cynllunio arbennig heb ddisgyblion.

Yn dilyn y deuddydd cyntaf byddwn yn gweithredu i groesawu'r disgyblion mewn trefn gynyddol yn adeiladu at gapasiti llawn erbyn dydd Iau y 10fed o Fedi. Isod fe welwch y drefn ar ffurf tabl sydd yn nodi'n glir beth fydd diwrnod cyntaf y flwyddyn ar gyfer eich plentyn/plant. Mae hefyd yn pwysleisio bod pob disgybl yn mynychu'r ysgol bob diwrnod o'u diwrnod cyntaf ymlaen:

	7	8	9	10	11	12	13	Cinio poeth
Iau 3/9	✓					✓	✓	Pecyn bwyd
Gwe 4/9	✓					✓	✓	Pecyn bwyd
Llun 7/9	✓			✓	✓	✓	✓	Pecyn bwyd
Maw 8/9	✓			✓	✓	✓	✓	Pecyn bwyd
Mer 9/9	✓		✓	✓	✓	✓	✓	Pecyn bwyd
Iau 10/9 ymlaen	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Unwaith bydd eich plentyn/plant wedi ymuno â ni ar eu diwrnod cyntaf byddant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd bob un diwrnod.

Rydym wedi gosod calendr arferol yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd a byddwn yn cyhoeddi'r dyddiadau allweddol i rieni yn ein trefn arferol ar ddechrau mis Medi.

Trefniadau Ymarferol

Yn dilyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar ail agor ysgolion gallaf gadarnhau y bydd y Polisi Gwisg Ysgol bellach yn weithredol o ddechrau'r tymor i bawb. Wedi dweud hynny, o ganlyniad i'r byr rybudd, gallwn weithredu ychydig o hyblygrwydd am y pythefnos cyntaf.

Ni fydd yr ysgol yn darparu cinio poeth yn y ffreutur tan ddydd Iau y 10fed o Fedi. O ganlyniad mi fydd angen i bob disgybl fydd yn mynychu cyn hynny ddod a phecyn bwyd i'r ysgol bob diwrnod. Yn yr achos lle mae disgybl yn gymwys i brydau ysgol am ddim bydd yr ysgol yn darparu pecyn bwyd drwy'r cwmni arlwyo yn yr ysgol.

YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY DIRPRWY: DR GERAINT JONES

PEN. CYN: MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS

RHEOLWR BUSNES: MISS MENNA OWEN

Mi fydd trefn y dydd yn dilyn y patrwm arferol yn YSTJ a disgwylir i bob disgybl fod ar y safle yn barod i ddysgu am 8:40 bob dydd. Ac ar gyfer gwneud y mwyaf o'r cyfle gallwn gadarnhau bod posib i bob disgybl bellach gludo unrhyw offer ysgrifennu personol ac eitemau personol sydd ei angen arnynt yn eu bagiau. Byddwn yn disgwyl i bob disgybl gymryd cyfrifoldeb llawn drwy'r amser am eu heitemau personol gan gynnwys unrhyw ddyfeisiadau electronig fel ffonau.

Ar hyn o bryd nid oes canllawiau pendant ar drafnidiaeth ysgolion ac felly nid yw'n amserol i mi wneud unrhyw sylw ar hyn o bryd ar hwn. Byddwn yn eich diweddaru ar drafnidiaeth ar ddechrau'r tymor unwaith bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gyda gobaith mis Awst.

Byddwn yn gweithio'n ddygn rwan dros yr haf ar addasu ein Asesiadau Risg i adlewyrchu'r arweiniad mwyaf diweddar a gallwn eich sicrhau y byddwn yn gwneud pob addasiad posib i wireddu'n cynllun yn y ffordd mwyaf diogel posib i bawb.

Presenoldeb a Lles

Fel y byddwch wedi clywed yn y wasg ac fel sydd yn y canllawiau cenedlaethol mae presenoldeb eich plentyn/plant yn hanfodol o ddechrau Medi ac fe wnawn eich cefnogi gyda hyn. Rydym yn awyddus i gael pob disgybl yn ôl yn ddiogel ac wirioneddol yn edrych ymlaen at ailymafael yn ein gwaith craidd gyda pob unigolyn.

Rydym wedi addasu ein systemau a'n timau yn yr ysgol yn barod er mwyn sicrhau bod popeth posib yn ei le i gefnogi lles pob unigolyn. Mi fydd staff YSTJ ar gael i ymateb i unrhyw anghenion fydd gan ein disgyblion ar ddychwelyd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i wneud cynnydd academaidd yn dilyn cyfnod hir gartref.

Y Dysgu

O fis Medi byddwn yn gweithredu ein cwricwlwm arferol yn llawn ac yn anrhydeddu dewisiadau pynciau ein disgyblion fydd yn symud i mewn i gyfnod pwysig iawn ym mlwyddyn 10 a 12. Rydym yn gweithio'n galed ar hyn o bryd i osod amserlen dysgu fydd yn bosib ei gweithredu'n llyfn ar ein dychweliad.

Heb os nac oni bai rydym wedi dysgu llawer yn ystod ein cyfnod yn dysgu o bell ac mae sgiliau technolegol ein disgyblion a'n staff wedi cynyddu'n sylweddol mewn cyfnod byr iawn. Mae'n hollol allweddol ein bod yn sicrhau bod y sgiliau a'r systemau newydd yn parhau yn rhan creiddiol o'n dysgu i'r dyfodol. Gallaf gadarnhau felly byddwn fel ysgol yn gweithio ar strategaeth dysgu cyfunol fydd yn edrych ar ein defnydd o dechnoleg er mwyn cefnogi'r dysgu. Dylai'r platfformau dysgu digidol gael eu gweld fel y 3ydd athro ymhob dosbarth, ar ôl yr athro ei hun a'r dysgwr fel yr 2il athro.

Edrychwn ymlaen gyda'n gilydd at flwyddyn arall lwyddiannus.

'RYDYCH WEDI BOD YN WYCH! MWYNHEWCH EICH GWYLIAU AC EDRYCHWCH AR ÔL EICH HUNAIN A'CH TEULUOEDD.

Gyda chofion cynnes iawn atoch,

R. Aaron Bayley
Pennaeth

YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY DIRPRWY: DR GERAINT JONES

PEN. CYN: MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS

RHEOLWR BUSNES: MISS MENNA OWEN

17th of July 2020

Dear Parents / Guardians,

I would like to start by thanking you all for your support and for the teamwork that has helped us all through a difficult time over the last few weeks. It was great to welcome about half of our pupils back to school this week to prepare somewhat for the summer and September.

We have tried to communicate with you and our pupils on a regular basis throughout the pandemic and hope that the information you have received has been helpful. This is the last letter of the summer term and this letter is intended to give you some updates on our plans for September. However, it is important to note at the outset that the information contained in this letter is dependent on receiving the latest guidance from the Welsh Government during the summer and on continued national control of the virus.

Key Dates

All members of staff at the school will start work on Tuesday 1st September 2020 and the first 2 days will be special planning days without pupils.

Following the first two days we will be arranging to welcome the pupils back in a progressive order building to full capacity by Thursday the 10th of September. Below you will find the arrangements in the form of a table that clearly indicates the first day of the year for your child/ren. It also emphasises that every pupil attends school every day from their first day onwards:

	7	8	9	10	11	12	13	Hot meals
Thu 3/9	✓					✓	✓	Packed lunch
Fri 4/9	✓					✓	✓	Packed lunch
Mon 7/9	✓			✓	✓	✓	✓	Packed lunch
Tue 8/9	✓			✓	✓	✓	✓	Packed lunch
Wed 9/9	✓		✓	✓	✓	✓	✓	Packed lunch
Thu 10/9 onwards	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Once your child/ren have joined us on their first day they will attend school regularly every single day.

We have set the usual school calendar for the academic year and will be announcing the key dates for parents in our normal way in early September.

Practical Arrangements

Following the publication of Welsh Government guidance on reopening schools I can confirm that the School Uniform Policy will now be in effect from the start of term for all. That said, as a result of the short notice, we are able to implement some flexibility for the first two weeks.

The school will not be providing a hot lunch in the canteen until Thursday 10th September. As a result, every pupil who attends before then will need to bring a packed lunch to school every day. In the case where a pupil is eligible for free school meals the school will provide a packed lunch through the school catering company.

YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY DIRPRWY: DR GERAINT JONES

PEN. CYN: MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS

RHEOLWR BUSNES: MISS MENNA OWEN

The order of the day will follow the usual pattern at YSTJ and every pupil is expected to be on site ready to learn from 8:40 every day. And to make the most of the opportunity we can confirm that every pupil can now carry any personal stationery and personal items they need in their bags. We will expect all pupils to take full responsibility at all times for their personal items including any electronic devices such as phones.

There is currently no definitive guidance on school transport and therefore it is not timely for me to comment at this stage. We will update you on transport at the start of term once the Welsh Government has issued guidance hopefully in August.

We will be working hard now over the summer on adapting our Risk Assessments to reflect the latest guidance and can assure you that we will make every possible adjustment to make our plan the safest possible for everyone.

Attendance and Wellbeing

As you may have heard in the press and as in the national guidelines your child/ren's attendance is essential from the beginning of September and we will support you with this. We want to get all pupils back safe and really look forward to re-engaging with our core function with each individual.

We have already adapted our systems and teams in the school to ensure that everything possible is in place to support the wellbeing of each individual. YSTJ staff will be available to respond to any needs our pupils may have on their return to ensure that they can continue their academic progress after a long period at home.

The Learning

From September we will fully implement our usual curriculum and honour the subject choices of our pupils who will be moving into a very important phase in years 10 and 12. We are currently working hard to set a learning timetable that can be smoothly implemented on our return.

We have undoubtedly learned a great deal during our distance learning period and the technological skills of our pupils and staff have increased significantly in a very short space of time. It is vital that we ensure that the new skills and systems remain a core part of our learning for the future. I can therefore confirm that as a school we will be working on a blended learning strategy that will look at our use of technology to support learning. The digital learning platforms should be seen as the 3rd teacher in each class, after the teacher themselves and the learners as the 2nd teachers.

We look forward together to another successful year.

YOU HAVE BEEN AMAZING! HAVE A GREAT HOLIDAY AND LOOK AFTER YOURSELVES AND YOUR FAMILIES.

With my warmest regards,

R. Aaron Bayley
Headteacher